**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 18 Ebrill 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | D H Hopkins |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| M Sherwood | M Thomas | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr P K Jones a E J King.

## 181. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Mynegodd y Cynghorydd M C Child, D H Hopkins, A S Lewis, C E Lloyd, M Sherwood, R C Stewart a M Thomas gysylltiad personol â chofnod 188 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol";

2) Mynegodd y Cynghorydd W Evans gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 188 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol"

3) Mynegodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 188 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros, siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 182. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019;

2) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019.

## 183. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Gweddarlledu Cyfarfod**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, fel rhan o'r gwaith cyfredol i fynd ati i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor y Rhaglen Graffu, fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion gweddarlledu. Ni fydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw am ein bod yn dal yn y cyfnod profi; fodd bynnag, caiff ei recordio. Os bydd y prawf yn llwyddiannus, caiff y cyfarfod ei gyhoeddi ar-lein.

**184. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**185. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd P K Jones nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 190 “Datblygiad Eiddo’r Cyngor: Cronfa Gyffredinol Cam 2”, gan ymwneud yn benodol â Home Farm, Sgeti.

Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad drwy gadarnhau na fyddai’r cynnig yn cael effaith ar Barc Singleton.

**186. Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl i Oedolion.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda adroddiad a oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed ar ran Bwrdd Iechyd PABM, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe i ddatblygu Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl i Oedolion.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r gwaith sylweddol a wnaed i ddatblygu'r Fframwaith Strategol, gan gynnwys y cydgynhyrchu sylweddol â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r sector gwirfoddol;

2) Nodi'r broses gynnwys sylweddol yr ymgymerwyd â hi, yr adborth o'r broses ymgynghori a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr;

3) Nodi hefyd fod y fframwaith yn gyson â bwriad strategol ehangach y cyngor i hyrwyddo ymagwedd fwy ataliol gan gynnwys datblygiadau fel Tai'n Gyntaf;

4) Cymeradwyo'r Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd Meddwl i Oedolion (yr oedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin wedi cytuno arno).

**187. Sefydlu Gwasanaeth Troseddwyr Ieuenctid ar wahân i Abertawe**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant adroddiad a oedd yn darparu canlyniad yr arolygiad diweddar o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI)

ac yn ceisio cymeradwyaeth i wahanu GTI ar gyfer Abertawe o gydweithfa Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r adroddiad arolygu terfynol a ddeilliodd o'r arolygiad o'r GTI a chytuno hefyd ar y cynllun gweithredu cychwynnol;

2) Cyrraedd cytundeb i wahanu'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer y GTI a datblygu gwasanaeth annibynnol ar gyfer Abertawe.

**188. Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Parklands | Eira Wyn Davies |
| 2) | Ysgol Gynradd Pontybrenin | Y Cyng. William Evans |

**189. Hysbysiad o waredu man agored - tir yn Parklands View, Sgeti, Abertawe.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fusnes, Trawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ystyried yr ymateb i'r Hysbysiad o Le Agored mewn perthynas â thir yn Parklands View, Sgeti, a cheisiodd gymeradwyaeth i'w waredu.

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â chael gwared ar y dynodiad lle agored;

2) Nodi, yn unol â'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) blaenorol, nad ystyriwyd bod colli'r lle agored hwn yn cael effaith negyddol ar ward etholiadol Sgeti gan fod digon o le agored cyhoeddus ar gael yno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi yn unol â darpariaethau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd;

3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo i brynu'r safle er mwyn ei marchnata a'i waredu.

**190. Datblygu Eiddo'r Cyngor: Cam 2 Cronfa Gyffredinol.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fusnes, Trawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn darparu diweddariad manwl ynghylch cynnydd gyda'r prosiect peilot ‘Datblygu Eiddo'n Uniongyrchol’.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Hysbysiad o Wybodaeth cyhoeddus i geisio mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer Partner Menter ar y Cyd.

## 191. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 192. Caffael tir i hwyluso gwelliannau priffyrdd

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio caniatâd i brynu tir rhydd-ddaliad sy'n fwy na therfynau dirprwyedig swyddogion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | **18 Ebrill 2019** |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 25 Ebrill 2019 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 26 Ebrill 2019 |